Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-777
Ein cyf/Our ref LG/01959/17

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd
/Cardiff Bay
CF99 1NA

government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

5 Medi 2017

Annwyl David

Diolch yn fawr ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Awst ynghylch deiseb P-05-777 Rhoi ar waith y Ddeddfwriaeth ynghylch Systemau Llethu Tanau Awtomatig sydd yn Rheoliadau Adeiladu cyfredol Cymru.

Mae'r ddeiseb yn gofyn am adolygiad o'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â systemau llethu tanau - hynny mewn cysylltiad â phrosiectau sy'n arwain at 'newid defnydd sylweddol' yn ôl y Rheoliadau Adeiladu. Mae'r ddeiseb yn gofyn hefyd y dylai unrhyw adolygiad edrych ar oblygiadau ehangach y ddeddfwriaeth, megis costau, systemau cynnal a'r risg o glefyd y llengfilwyr.

Mae Offeryn Statudol 2013 Rhif 2730 (Cy. 264) Rheoliadau Adeiladu ac ati (Diwygio rhif 3) a Rheoliadau Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2013, sy'n gofyn am osod unedau llethu tân mewn preswylfeydd lle cynhelir gwaith adeiladu, yn diwygio'r Rheoliadau Adeiladu a chawsant eu gwneud yn dilyn Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) (Diogelwch Tân) 2010 a Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011.

Mae'r gofyn penodol i osod system awtomatig ar gyfer llethu tanau, a geir yn rheoliad 37A(3) Rheoliadau Adeiladu 2010, yn gymwys pan gynhelir gwaith adeiladu sy'n golygu naill ai codi adeiladau penodol (gan gynnwys tai annedd a fflatiau) neu newid defnydd sylweddol i adeiladau o'r fath. Caiff defnydd adeilad ei newid yn sylweddol pan fydd adeilad ag ynddo o leiaf un breswylfa, ar ôl newid ei ddefnydd yn cynnwys nifer fwy neu lai o breswylfeydd nag oedd ynddo cynt (rheoliad 5(g) a'i roi ar waith gan reoliad 37A(2)).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dechreuodd y broses ddeddfwriaethol yn 2007 gyda'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (a alluogodd y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Mesur). Yn ôl hwnnw, byddai'r term 'preswylfa newydd' yn cynnwys y preswylfeydd hynny a grewyd yn sgil uno nifer fwy o breswylfeydd yn un. Roedd y gofyn hwnnw'n gyson gydol y broses ddeddfwriaethol.

Yn ei adroddiad a osodwyd ar 11 Mehefin 2008, daeth pwyllgor craffu'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol i'r casgliad y dylid diwygio'r gorchymyn a gynigir er mwyn dileu darpariaethau dehongli'r termau 'mangreoedd preswyl newydd' ac y dylid ystyried darpariaethau dehongli priodol fel rhan o unrhyw Fesur yn y dyfodol.

Fodd bynnag, nid oedd yr Aelod Cyfrifol yn cytuno â'r argymhelliad hwn. Daeth y pwyllgor i'r casgliad wedyn bod y term 'mangre preswyl newydd' fel ag yr oedd yn y Gorchymyn a gynigir wedi'i ddiffinio'n ddigon clir a'i fod felly'n fodlon â'r term hwn a'r dehongliad ohono. Dyma oedd y dehongliad:

Mae'r term 'mangreoedd preswyl newydd' yn golygu nid yn unig tai newydd ond hefyd eiddo sydd wedi'i drosi at ddiben preswyl a mangreoedd preswyl sy'n bod eisoes sydd wedi'u rhannu neu eu huno i greu un neu fwy o breswylfeydd newydd.'

Ar ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru graffu arno ac i ddau Dŷ'r Senedd graffu arno cyn ei droi'n ddeddfwriaeth, derbyniodd Gorchymyn diwygiedig, *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) (Diogelwch Tân) 2010,* y Cydsyniad Brenhinol ar 12 Ebrill 2010 a daeth i rym y diwrnod canlynol.

Yn dilyn y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, cyflwynwyd y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Gorffennaf 2010 gan osod allan y gofynion ar gyfer systemau llethu tanau. Cafodd y gofynion eu hesbonio'n glir:

Darparu systemau llethu tân awtomatig mewn mangreoedd preswyl newydd.

Yn y mater hwn, ystyr "mangreoedd preswyl newydd" yw—
(a) mangreoedd a adeiledir o'r newydd at ddibenion preswyl;
(b) mangreoedd a drosir o'r newydd at ddibenion preswyl;
(c) mangreoedd a drosir i'w defnyddio'n un breswylfa newydd neu fwy drwy isrannu un neu fwy o fangreoedd preswyl presennol; a
(d) mangreoedd a drosir i'w defnyddio'n un breswylfa newydd neu fwy drwy gyfuno mwy nag un fangre breswyl bresennol.

Yn dilyn rhoi'r Gymeradwyaeth Frenhinol i Fesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) ym mis Ebrill 2011, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mawrth 2013 ar roi'r ddeddfwriaeth ar waith. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys ystyried integreiddio gofynion y Mesur â'r Rheoliadau Adeiladu. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, cafodd y gofynion eu hymgorffori yn y rheoliadau adeiladu trwy Reoliadau Adeiladu ac ati (Diwygio rhif 3) a Rheoliadau Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2013 a wnaed ar 22 Hydref 2013.

O ran costau gosod chwistrellau, dywedodd John Griffiths AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, ar 30 Mai 2012 mewn datganiad ysgrifenedig, "Mae'r astudiaeth yn dangos bod yr achos dros gost a budd yn llai cadarn o ran rheoleiddio pob eiddo domestig newydd. Cred Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, fod angen bod yn ofalus wrth ystyried unrhyw bolisi a allai ddiogelu bywydau pobl".

Cyfartaledd o'r costau disgwyliedig oedd y costau gosod chwistrellau a nodwyd yn yr asesiad o'r effaith rheoleiddiol. Ategwyd y costau hynny i raddau helaeth gan adroddiad terfynol yr astudiaeth beilot. Er hynny, rydym yn derbyn bod costau gosod system llethu tân mewn datblygiadau bach ac mewn tai sy'n cael eu hadnewyddu yn debygol o fod yn uwch, gan gynnwys lle ceir dwy breswylfa neu fwy'n cael eu troi'n un (neu fel arall).

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal astudiaeth beilot o chwistrellau mewn tai newydd gan mai dyma lle'r ydym yn disgwyl gweld y rhan fwyaf o'r gwaith yn digwydd. Amcan y prosiect oedd cynnal ymchwil benodol i'r profiadau dysgu, atebion i broblemau, y prosesau sy'n ymwneud â'r dylunio a chostau gosod systemau mewn tai yng Nghymru. Edrychodd yr astudiaeth beilot ar 175 o osodiadau mewn deuddeg awdurdod lleol. Dechreuwyd hi ym mis Mehefin 2014 ac fe ddaeth i ben ym mis Awst 2016.
I weld yr adroddiad terfynol, ewch i
http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/publications/welsh-government-sprinkler-pilot-study-final-report/?skip=1&lang=cy

O ran costau cyffredinol gosod system chwistrellu, mae'n anodd asesu'r costau gan y bydd pob eiddo'n wahanol o ran ei ddyluniad, dyluniad y system, natur y cyflenwad dŵr a lleoliad y contractwr. O ran y cyflenwad dŵr, lle bo llif a phwysedd digonol, yna system sy'n defnyddio'r prif gyflenwad dŵr sydd fwyaf effeithiol. Lle bo agen pwmp i gryfhau'r llif a'r pwysedd, yna bydd y costau'n uwch.

O ran cynnal a chadw system llethu tân, dyma gyfrifoldeb perchennog y tŷ neu'r person sy'n gyfrifol am yr eiddo. Nid oes gofynion rheoli pellach trwy'r rheoliadau adeiladu ar ôl cofrestru'r gwaith adeiladu.

O ran clefyd y llengfilwyr, mae hwn yn lledaenu drwy ddŵr yn yr awyr. I droi'n erosol, mae angen i ddefnynnau dŵr fod o faint penodol sy'n llai o lawer na'r defnynnau dŵr a gaiff eu chwistrellu o systemau chwistrellu. Hefyd, dim ond pan fo'r system chwistrellu ymlaen y mae dŵr yn debygol o gael ei erosoli, ac os felly, nid yw'n debygol y byddai'r preswylwyr yn dod i gysylltiad af ef oherwydd y byddent yn gadael y rhan honno o'r adeilad oherwydd tân. Er bod risg o glefyd y lleng filwyr, mae'r risg honno'n isel neu'n ddibwys yn achos systemau chwistrellu.

Cofion

Lesley

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs